

“Fy arwr”

“Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig.” (adn. 10)

Beth am ddarlenn Luc 19:1–10 ac yna myfyrio

Daliwn ati i feddwl am yr hyn y buom yn ei drafod ddoe, sef mai Iesu ydy seren stori Duw. Nid i'r rhai sy'n cael eu hachub y rhoddir y clod, ond i'r un sydd yn achub. Yn ddiweddar gwelais raglen deledu yn rhoi hanes gwraig oedd wedi ei hachub rhag boddi ar draeth yn Awstralia. Nid achubwr-bywyd oedd y dyn a'i hachubodd – dim ond dinesydd cyffredin a oedd wrthi'n mynd â'i gi am dro ar hyd y traeth. Fedrai'r dyn ddim nofio hyd yn oed. Ond pan welodd fod y wraig mewn trafferthion fe ruthrodd i nôl gwregys achub, aeth allan i mewn i'r môr cyn belled ag y gallai, a'i luchio ati hi. Yn ffodus medrodd y wraig ei ddal, ac am fod yna raff yn sownd ynddo gallodd yntau ei thynnu i ddiogelwch y lan. Digwyddai criw teledu fod wrth law a dechreuwyd holi'r achubwr yn syth. Tra canolbwyntiai un gŵr camera ar y dorf oedd wedi casglu o gwmpas y dyn i'w longyfarch, fe drodd camera arall ei lens at y wraig oedd wedi ei hachub – yn eistedd ar ei phen ei hun, wrthi'n cael ei gwynt ati. Ni wnaed yr un sylw a doedd dim angen yr un sylw chwaith. Mae'r clod, fel y dywedais uchod, yn cael ei roi i'r rhai sydd yn achub, nid i'r rhai sy'n cael eu hachub.

Mae'r rhai nad ydyn nhw'n Gristnogion yn meddwl yn aml pam ein bod ni'n rhoi cymaint o sylw i Iesu. Pe bydden nhw ond yn cael gwybod am lawenydd bywyd yn ei holl gyflawnder, pechodau wedi eu maddau, ac fel mae Williams yn canu: “Golwg, Arglwydd ar dy wyneb sydd yn codi'r marw o'r bedd,” ac yntau'n gwirioni gymaint ar yr Arglwydd Iesu. Datganodd pregethwr a glywais ychydig yn ôl: “Iesu ydy fy arwr i.” Doeddwn i ddim yn siŵr iawn beth i'w wneud o'r datganiad ar y cychwyn. Ond po fwyaf y meddyliwn am y peth, mwya'n y byd y gwelwn ei fod yn iawn. Nid arwr Duw yn unig ydy Iesu, ond fy arwr innau hefyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Ioan 6:66–69;

Dat. 5:9–14

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa ddau reswm mae Pedr yn eu rhoi dros aros gyda Iesu?
2. Pam fod yr holl greadigaeth yn ymuno i addoli'r Oen?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, sut allaf fi fyth ddiolch digon iti am f'achub i ac am fod yn achubwr mor rhyfeddol? Rhoddaf iti'r clod i gyd am fy iachawdwriaeth i. A gwnaf hynny byth mwy. Amen.